

# MEINI BYWIOL, GOBAITH BYWIOL

USPG
PARTNERIAID MEWN CENHADAETH FYD-EANG

**CWRS ASTUDIO PUM-SESIWN**
Archwilio diwinyddiaeth gyd-destunol

#LIVINGHOPE

WWW.USPG.ORG.UK/LENT

# CYNNWYS

Gwneud yn fawr o'r cwrs hwn....... 2
Gobaith Bywiol .............................. 3
Rhagarweiniad.............................. 5
Diwinyddiaeth Merched Affrica..... 7
Diwinyddiaeth Coreaidd... ........... 13
Diwinyddiaeth Rhyddhad............. 21
Ysbrydolrwydd Celtaidd... ............ 29
Diwinyddiaeth Dalit... .................. 35
Diolch......................................... 43
Ffurflen gyfrannu... ...................... 44
USPG a'ch eglwys chi... ................ 46

Mae'r adnodau a ddynodir gan [BNET] yn dod o **Beibl.net**, ac fe'u defnyddir yma gyda chaniatâd Cymdeithas y Beibl. I ddarganfod mwy, ymwelwch â **www.biblesociety.org.uk**

Cyfieithwyd y cwrs gan Noel Davies



# GWNEUD YN FAWR O'R CWRS ASTUDIO HWN

1. Ymrwymwch i fynychu pob un o'r pum sesiwn. Y mwyaf y gallwch eu mynychu, y mwyaf y byddwch yn elwa a'r mwyaf y byddwch yn cynnal parhad y grŵp. Gwnewch addewid i'ch hunan i geisio gwrthod unrhyw ymrwymiadau neu wahoddiadau eraill allant godi ar adegau pan mae'r astudiaethau i'w cynnal.

2. Cychwynnwch bob astudiaeth gyda chyfnod o dawelwch er mwyn helpu canoli sylw'r grŵp a galw i gof bresenoldeb Duw.

3. Ymrwymwch i rannu'n onest a gwrando heb farnu neu geisio 'datrys' bywyd rhywun arall drostynt. Ceisiwch greu awyrgylch diogel lle mae pobl yn teimlo y gallant rannu'n agored. Cofiwch, nid oes gan neb ohonom yr atebion i gyd. Ein nod yw bod yn ddiffuant a thriw – nid bod yn berffaith!

4. Cydnabyddwch fod profiad pawb o fywyd a ffydd yn unigryw a gwerthfawr. Dylem geisio derbyn ein gilydd fel yr ydym, yn union fel y mae Duw yn derbyn bob yr un ohonom.

5. Rhowch gyfle i bawb siarad, er na ddylai neb deimlo gorfodaeth i siarad. Os ydych yn berson sy'n dueddol i siarad llawer, cofiwch roi cyfle i eraill sy'n ei chael yn fwy anodd i rannu.

6. Darllenwch y deunydd o flaen llaw a rhowch gyfle i'r cynnwys suddo i mewn – ond heb deimlo fod rhaid dod o hyd i'r atebion.

7. Cofiwch fod geiriau crefyddol a diwinyddol yn medru golygu rhywbeth gwahanol i wahanol bobl. Rhannwch eich persbectif chi a gadewch i eraill ddal persbectif gwahanol.

8. Gorffennwch pob sesiwn drwy weddi.

9. Gwnewch ymrwymiad i weithredu. Bob wythnos byddwch yn trafod, yn myfyrio, yn gweddïo a gweithredu. Trwy newid eich arferion a chodi arian i'r eglwys fyd-eang medrwch fod yn rhan o rywbeth sydd y tu hwnt i'ch cymuned chi a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

# GOBAITH BYWIOL

Bydd unrhyw arian a gyfrannir neu a godir fel rhan o Apêl Grawys USPG, Gobaith Bywiol, yn mynd tuag at dair o'n partner-eglwysi a'u rhaglenni cyfiawnder: rhaglen Cyfiawnder Rhywiol Trawsnewidiol Cyngor Anglicanaidd Zambia, rhaglen Gadewch i'm Pobl Fynd Eglwys Gogledd India a lloches merched Eglwys Esgobol Brasil, Casa Noeli.

Sefydlodd Cyngor Anglicanaidd Zambia y rhaglen Cyfiawnder Rhywedd Trawsnewidiol i godi ymwybyddiaeth o gyfiawnder rhywiol ac i gynnig cefnogaeth, cwnsela a sgiliau i'r sawl sydd wedi dioddef trais rhywiol.

Roedd Loveness Malenga, mam i 9 plentyn sy'n 41 mlwydd oed, yn briod â dyn oedd yn dreisiol tuag at Loveness a'i phlant. Fe'i cyfeiriwyd gan Gyngor Anglicanaidd Zambia at y rhaglen Cyfiawnder Rhywiol Trawsnewidiol



Loveness Malenga

lle cafodd gyfle i dderbyn cwnsela, rhodd ariannol i'w galluogi i brynu hadau a chyfle i ymuno â grŵp cynilo a'i galluogodd i fyw'n annibynnol.  Mae'r arian mae Loveness wedi'i ennill drwy dyfu a gwerthu cnydau wedi ei galluogi i brynu bwyd i'w phlant a beic er mwyn i'r plant fedru teithio i'r ysgol yn haws. *"Nawr rwy'n teimlo'n rhydd i wneud heb ofn beth rwyf wedi dymuno'i wneud erioed. Rwyf am roi i'm plant yr hyn na fedrai eu tad – cartref diogel, cariadus. Rwy'n gobeithio defnyddio'r arian rwyf wedi ei arbed i adeiladu tŷ newydd i'm teulu."*

Mewn ymateb i'r enghreifftiau cynyddol o drais domestig ym Mrasil mae Eglwys Esgobol Brasil wedi sefydlu'r lloches i ferched, Casa Noeli dos Santos. Mae'r lloches yn sicrhau hafan ddiogel i ferched a phlant sy'n dioddef trais domestig ac yn eu galluogi i ddod o hyd i gwnsela, gwasanaethau cyfreithiol a chyfleoedd am gyflogaeth er mwyn iddynt gael byw'n annibynnol.

Mae Eglwys Gogledd India yn gweithio gyda phobl o'r cymunedau Dalit ac Adivasi sydd wedi'u cloi mewn cylch o gaethiwed i ddyled a thlodi. Maent yn cymell gwragedd i ymuno â grwpiau hunan-gymorth ac i sefydlu busnesau i'w codi eu hunain a'u teuluoedd allan o dlodi. Mae Lakhibala yn fam i dri plentyn a breuddwydiodd am gynnig addysg dda i'w phlant a bywyd cysurus gyda'i gŵr. Fe'i cynghorwyd gan Eglwys Gogledd India i ymuno ag un o'i grwpiau hunan-gymorth. Cynigiodd y grŵp fenthyciad a chefnogaeth iddi sefydlu ei busnes saree ei hunan. Y mae yn awr yn wraig fusnes lwyddiannus. *"Pryd bynnag y mae unrhyw achlysur megis priodas neu Annaprasan plentyn (seremoni cymryd bwyd am y tro cyntaf), mae fy ffrindiau i gyd yn gofyn i mi eu helpu i ddewis pa saree i wisgo a'u dysgu i'w clymu'n iawn".*

Y Grawys hwn gweddïwn gyda'n partner-Eglwysi ar draws y byd a chefnogwn eu cenhadaeth i ddwyn cyfiawnder i bobl bregus yn eu cymunedau lleol. Ymwelwch â **www.uspg.org.uk/lent** i ddarganfod mwy ac i gefnogi'n Hapêl Grawys, "Gobaith Bywiol".

**"**

**Y Grawys hwn gweddïwn gyda'n partner-eglwysi ar draws y byd**

# MEINI BYWIOL, GOBAITH BYWIOL

Y mae'r trosiad yn I Pedr 2 o'r gymuned Gristnogol fel meini bywiol ('cerrig sy'n fyw' yn BNET.net) sy'n ffurfio teulu Duw, yn ddarlun awgrymog a chyfoethog. Fe'n hatgoffir ein bod nid yn unig yn un o'r meini sy'n ffurfio teulu Duw, ond hefyd fod pob un ohonom wedi'n cysylltu mewn modd unigryw â Iesu Grist, conglfaen ('carreg gornel' BNET.net) ein ffydd.

Cynigia 1 Pedr, sy'n destun ffocws Cynhadledd Lambeth, ffordd arbennig o gysylltu stori Iesu â stori cymuned Gristnogol gynnar neilltuol. Cyffyrdda â phrofiad Iesu ei hun o gael ei wrthod fel "y maen a wrthodwyd gan yr adeiladwyr" gan ei ddwyn i mewn i ddeialog â phrofiad y gymuned ei hun o erledigaeth. Drwy'r pontio hwn rhwng storïau, ceisir agor llwybr i'r gymuned ddioddefus symud tuag at obaith bywiol. Mae, felly'n, cyflawni un o amcanion hanfodol diwinyddiaeth, sef, myfyrio ar y cysylltiad rhwng Duw y bywyd a bywyd holl bobl Dduw a byd Duw.

Ystyr diwinyddiaeth yw myfyrdod dynol ar Dduw. Un o'r ddiffiniadau gorau o ddiwinyddiaeth, yw'r un a gynigwyd gan Sant Anselm o Gaergaint, sy'n disgrifio diwinyddiaeth fel 'ffydd yn ceisio dealltwriaeth', lle mae person yn tyfu i werthfawrogiad llawnach o'i ffydd. Felly, mae myfyrio neu adlewyrchu yn greiddiol i ddiwinyddiaeth. Ond nid yw'r myfyrio hwn byth yn digwydd mewn gwacter. Bydd ein cyd-destun bob amser yn gosod ffurf ar yr hyn a feddyliwn, er na fyddwn bob amser yn ymwybodol o hynny. Bydd ein cyd-destun a'n profiadau yn cynnig fframwaith ar gyfer y cwestiynau a ofynnwn, yr atebion y down o hyd iddynt a'r ffyrdd a ddefnyddiwn i ffeindio'n ffordd rhyngddynt. Felly, diwinyddiaeth gyd-destunol yw pob diwinyddiaeth.

Ffenomen gymharol newydd yw'r ymwybyddiaeth fod diwinyddiaeth yn cael ei dylanwadu gan y cyd-destun. Am amser hir, gwelwyd mathau penodol o ddiwinyddiaeth, yn arbennig y rhai oedd yn deillio o'r byd academaidd Gorllewinol, fel 'prif ffrwd' diwinyddiaeth ac ystyriwyd eu bod yn berthnasol yn fyd-eang. Prif sail hyn oedd y dybiaeth fod gan ddiwinyddiaeth sylfaen wrthrychol, ffeithiol na chaiff ei dylanwadu gan brofiadau penodol. Ar y sail hon, mae diwinydda'n digwydd mewn un ffordd benodol. Methodd y dybiaeth hon gydnabod fod cyd-destun a phrofiad wastad yn dylanwadu ar unrhyw ymchwilio diwinyddol. Golygodd yr hanes trefedigaethol (colonial), oedd yn aml yn gysylltiedig â'r fenter genhadol, fod y ffordd hon o ddiwinydda yn cael ei hystyried fel y dull ddylai fod yn 'normal' ar draws y byd.

Felly, pan darddodd ffurfiau eraill o ddiwinydda mewn cymunedau Affricanaidd, Affro-Americanaidd, Lladin-Americanaidd, Asiaidd neu mewn cymunedau yn ynysoedd y Môr Tawel, oeddent yn cael eu dylanwadu'n benodol gan eu cyd-destun, fe'u disgrifiwyd fel 'diwinyddiaeth gyd-destunol' ac, yn aml, fe'u beirniadwyd am wrthod agweddau diwinyddol traddodiadol. Fodd bynnag, y mae'r ffurfiau diwinyddol hyn wedi cynorthwyo'r teulu Cristnogol byd-eang i ddeall fod diwinyddiaeth yn sgyrsiol yn ei hanfod. Datblyga diwinyddiaeth pan fydd testunau a thraddodiadau o'r gorffennol yn cael eu dwyn i mewn i ddeialog neu'n sgwrsio â'r amgylchiadau lle mae pobl yn byw eu bywyd ac yn gwneud synnwyr o'u ffydd.

Amcan y cwrs Grawys hwn yw ein helpu i ddeall yr ymagwedd sgyrsiol hon at ddiwinyddiaeth a'i gweld fel deialog rhwng y gorffennol a'r presennol. Yn y broses hon, mae dwy agwedd yn hanfodol bwysig. Y gyntaf yw ffyddlondeb i'r Efengyl, a wreiddiwyd yn ein traddodiad ffydd ysgrythurol. Yr ail yw bod yn agored i waith creadigol yr Ysbryd wrth inni ddehongli a byw y traddodiad mewn ffyrdd sy'n cynnig a chadarnhau bywyd heddiw. Gelwir yr agwedd hon gan Stephen Barton yn 'ffyddlondeb creadigol' ('creative fidelity'). Mae'n ein cymell i ddeall diwinyddiaeth mewn perthynas â'r modd y byddwn yn arfer ein ffydd, fel diwinyddiaeth fyw, diwinyddiaeth sy'n ymgnawdoledig – wedi ei gwreiddio yn y byd – sydd, felly, yn cael ei herio gan, ac yn herio, ein cyd-destun. Mae'r cyd-destunau gwahanol sy'n cael eu hystyried yn y cwrs Grawys hwn yn rhoi cipolwg inni ar y cerrig neu'r meini aml-ysblennydd sy'n ffurfio teulu Duw. Yn y storïau penodol a adroddir, cawn gymorth i ddarganfod y gall ein bywyd yn Nuw gael ei fyw mewn mwy nag un ffordd.

[1] Stephen C. Barton, "The Epistles and Christian Ethics", yn Robin Gill (gol.), The Cambridge Companion to Christian Ethics', 2ail argraffiad. (Cambridge: Cambridge University Press, 2012), tud. 54-64, tud.63.

**Rydym yn un ymhlith meini lawer yn nheulu Duw**



ASTUDIAETH 1

# DIWINYDDIAETH MERCHED AFFRICA

Dechreuwn ein cwrs gyda Diwinyddiaeth Merched Affrica. Mae hon yn elfen bwysig o'r hyn a elwir yn ddiwinyddiaeth Ffeministaidd, sy'n cwmpasu mynegiadau diwinyddol gwahanol a ymddangosodd mewn ymateb i ymdrechion merched a gwragedd dros gyfiawnder ac i sicrhau cyfranogiad cyfartal ym mywyd eglwysi a'r gymdeithas ehangach. Gan nad ystyriwyd fod y gair 'ffeministaidd' yn gynrychioliadol o'r heriau mae merched a gwragedd yn eu hwynebu mewn cyd-destunau gwahanol, daeth amrywiol ddiwinyddiaethau i fod dros y blynyddoedd ac y mae Diwinyddiaeth Merched Affrica yn un ohonynt. Ymhlith y gweddill y mae diwinyddiaethau benywaidd (womanist) merched Affricanaidd-Americanaidd, diwinyddiaeth Mujerista merched Lladinaidd a'r

diwinyddiaethau gwahanol a fynegir gan ferched Asia a merched brodorol.

Un ffynhonnell bwysig i ddiwinyddiaethau merched Affrica fu'r Cylch o Ddiwinyddion Benywaidd yn Affrica, sydd â'r enw poblogaidd Y Cylch, rhwydwaith traws-Affricanaidd o ferched sy'n cydnabod merched fel asiantau diwinyddol, a phrofiad merched fel lensys pwysig ar gyfer diwinydda.

Un o gyfraniadau nodedig Diwinyddiaethau Merched Affrica fu'r modd iddynt roi sylw arbennig i'r arfer o adrodd storïau fel method diwinyddol. Mae'r agwedd hon o ddefnyddio naratif ar gyfer dehongli diwinyddol a Beiblaidd yn tynnu ar ddiwylliannau llafar sy'n nodweddiadol o lawer cyd-destun yn Affrica ac yn herio'r ffyrdd athrawiaethol o ddeall diwinyddiaeth sy'n or-ddibynnol ar fformiwlâu. Drwy osod eu stori eu hunain ochr yn ochr â'r naratif feiblaidd am ymyrraeth Duw mewn hanes, mae merched Affrica yn ceisio mynd i'r afael â gair Duw a'u bydoedd eu hunain mewn ffyrdd sy'n meithrin gweledigaeth a dulliau gweithredu sy'n gwella bywyd.

Yn ogystal, y mae agwedd ymarferol i ddiwinyddiaeth merched Affrica sy'n anelu at drawsnewid strwythurau patriarchaidd a sefydlu yn eu lle gydberthynas a chyd-fuddiant. Yn aml, bydd hyn yn golygu ymwneud creadigol a beirniadol â'r Beibl, y traddodiad Cristnogol a diwylliant Affricanaidd. Cydnebydd merched Affrica y gall y ffynonellau diwinyddol hyn fod yn addawol iawn ond y gallant hefyd fod yn broblemus i ryddhad gwragedd. Felly byddant yn ymwneud â nhw drwy ddefnyddio dulliau dehongli amrywiol, megis gwrthod safbwynt, gwrthsefyll agwedd ac adfer sefyllfa er mwyn hyrwyddo bywyd a sicrhau rhyddhad.

# SYLWADAU AR HYN O ZAMBIA

## Gan Felicia Sakala, Cyfarwyddwr Gwlad Rhaglenni Ymestyn Cyngor Anglicanaidd Zambia (RYCAZ)

Yn Esgobaeth Luapula mae Loveness Malenga yn byw. Ar un adeg, roedd yn briod â dyn oedd yn ei cham drin hi a'i phlant yn gorfforol. Tynnwyd sylw Rhaglenni Ymestyn Cyngor Anglicanaidd Zambia (RYCAZ) at y perygl yr oedd Loveness ynddo a chymeradwywyd fod RYCAZ yn rhoi sylw i'r sefyllfa. Sicrhaodd RYCAZ fod Loveness yn ddiogel drwy ei chysylltu â Chydlynydd Materion Rhywiol yr Esgobaeth ac yna â chwnselydd profiadol. Gyda chymorth yr aelodau staff hyn, penderfynodd Loveness i beidio byw gyda'i gŵr bellach.

Cafodd Loveness grant gan RYCAZ, a ddefnyddiodd i brynu hadau er mwyn tyfu cnydau, ac yna eu gwerthu. Galluogwyd Loveness drwy'r arian a gafodd o werthu eu chnydau i brynu bwyd i'w phlant a beic er mwyn iddynt fedru mynd i'r ysgol yn haws. Ymunodd hefyd â'r grŵp cynilo cymunedol lleol, sydd wedi ei galluogi i arbed arian. Mae stori Loveness yn dangos cymaint o effaith y gall yr Eglwys gael ym maes cyfiawnder rhywiol.

Sail cyfiawnder rhywiol yw stori feiblaidd y creu sy'n datgan fod Duw wedi creu dynion a merched ar ddelw Duw. Mae cyfiawnder, urddas a goresgyn strwythurau sy'n eithrio ac yn gorthrymu yn ganolog i neges yr Efengyl. Caiff trais yn erbyn gwragedd a merched ifanc ei atal gan gyfiawnder a chydraddoldeb rhywiol. Bydd cymdeithas sy'n gwerthfawrogi fod merched a dynion yn gyfartal yn fwy diogel, yn fwy iach ac yn debygol o fod yn fwy ffyniannus hefyd.

Er mwyn adeiladu tuag at gyfiawnder rhywiol fel Eglwys mae'n rhaid inni wneud pethau'n wahanol. Bydd hynny'n golygu chwalu'r rhwystrau sy'n dal gwragedd a merched yn ôl. Yn y cyd-destun hwn, mae gan yr Eglwys rôl bwysig o gyfrannu at y diogelwch economaidd a'r annibyniaeth sy'n angenrheidiol os yw gwragedd i wneud y penderfyniadau hynny allai newid eu dyfodol.

Mewn cymunedau lle mae Eglwys Zambia yn cynnal ei rhaglenni cenhadol, clywsom storïau am briodasau plant ifanc. Caiff merched mor ifanc â 12 oed eu priodi er mwyn elw economaidd. Ni all y rhai a briodir i arweinwyr yn yr Eglwys ddweud dim am Drais Seiliedig ar Ryw gan nad ydynt am ddwyn gwarth ar enw a delwedd yr Eglwys, yn arbennig



os yw'r un a gyflawnodd y trais yn un o arweinwyr yr Eglwys. Gallai aelodau'r eglwys hefyd fod yn ofnus ynglŷn â dweud wrth offeiriad am y peth rhag ofn y byddai adlach oddi wrth aelodau eraill o'r eglwys neu'r gymuned. Nid yw pawb yn y gynulleidfa'n trystio'r offeiriad neu'r arweinydd mewn perthynas â phroblemau Trais Rhywiol. Yn gyffredinol, mae gan yr Eglwys fantais gymharol wrth geisio cyrraedd y gymuned ehangach wrth iddi lefaru o blaid cyfiawnder rhywiol, gweithio i liniaru'r trais a chyfrannu at bolisïau fyddai'n cynyddu cyfiawnder rhywiol oddi fewn ac oddi allan i'r Eglwys.

Ni ellir gor-bwysleisio rôl dynion yn yr Eglwys parthed ceisio hyrwyddo cyfiawnder rhywiol. Er enghraifft, clustnododd Eglwys Anglicanaidd Zambia strwythurau allant fod yn sianelau trawsnewid. Y mae'r rhain yn cynnwys Undeb Dynion Anglicanaidd, Brigâd Bechgyn ac offeiriaid gwrywaidd. Gall y grwpiau hyn ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn yr Eglwys drwy gynyddu gwiriadau a balansau a chael gwared ar wahaniaethau ar sail rhyw.

**"Y mae cyfiawnder, urddas a goresgyn gorthrwm yn ganolog i'r Efengyl**

# CWESTIYNAU

- ‘Cedwir Eglwys Zambia’n fyw heddiw gan wragedd’. Pa ran mae gwragedd yn ei chwarae yn eich eglwys chi ac yn yr Eglwys yn gyffredinol?
- ‘Mae crefyddau’n dysgu cydraddoldeb ond mae israddoldeb neu eithrio gwragedd yn cael eu harfer o hyd’. A ydyw hyn yn wir am eich eglwys chi? Sut y gall Cristnogion weithredu’r hyn y maent yn ei bregethu?
- 'Ni ellir gor-bwysleisio rôl dynion yn yr Eglwys parthed ceisio hyrwyddo cyfiawnder rhywiol.’ Ydych chi’n ymwybodol o unrhyw gamau sy’n ceisio cael dynion i hyrwyddo cyfiawnder rhywiol yn eich cyd-destun lleol chi? Yn eich barn chi, a fu’r camau hyn yn effeithiol?

# GENESIS 1: 24 - 31 (BNET)

24 Dwedodd Duw, “Dw i eisiau i greaduriaid byw o bob math lenwi'r ddaear: anifeiliaid, ymlusgiaid a phryfed, a bywyd gwyllt o bob math.” A dyna ddigwyddodd.

25 Gwnaeth Duw bob math o greaduriaid gwyllt, pob math o anifeiliaid, ac ymlusgiaid a phryfed gwahanol i fyw ar y ddaear. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda.

26 Yna dwedodd Duw, “Gadewch i ni wneud pobl yn ddelw ohonon ni'n hunain, i fod yn debyg i ni; i fod yn feistri sy'n gofalu am bopeth – y pysgod yn y môr, yr adar yn yr awyr, yr anifeiliaid, y ddaear gyfan a'r holl greaduriaid a phryfed sy'n byw arni.”

27 Felly dyma Duw yn creu pobl ar ei ddelw ei hun. Yn ddelw ohono'i hun y creodd nhw. Creodd nhw yn wryw ac yn fenyw.

28 A dyma Duw yn eu bendithio nhw, a dweud wrthyn nhw, “Dw i eisiau i chi gael plant, fel bod mwy a mwy ohonoch chi. Llanwch y ddaear a defnyddiwch ei photensial hi; a bod yn feistr i ofalu am y pysgod sydd yn y môr, yr adar sy'n hedfan yn yr awyr, a'r holl greaduriaid sy'n byw ar y ddaear.”

29 Dwedodd Duw, “Edrychwch. Dw i wedi rhoi'r planhigion sydd â hadau a'r ffrwythau ar y coed i gyd, i fod yn fwyd i chi.

30 A dw i wedi rhoi'r holl blanhigion yn fwyd i'r bywyd gwyllt a'r adar a'r holl greaduriaid bach eraill sydd ar y ddaear – ie, pob un creadur
byw.” A dyna ddigwyddodd. 31 Edrychodd Duw ar bopeth roedd wedi'i
wneud, a gweld fod y cwbl yn dda iawn. Ac roedd nos a dydd ar y
chweched diwrnod.

31 Edrychodd Duw ar bopeth roedd wedi'i wneud, a gweld fod y cwbl yn dda iawn. Ac roedd nos a dydd ar y chweched diwrnod [BNET].

## CWESTIYNAU

- 'Felly dyma Duw yn creu pobl ar ei ddelw ei hun. Yn ddelw ohono'i hun y creodd nhw. Creodd nhw yn wryw ac yn fenyw’. Sut ydych yn deall hyn? Sut y gallwn gael ein creu ar ddelw Duw ac eto gael ein rhannu i gategorïau gwahanol?
- Beth mae’r syniad fod pawb wedi eu gwneud ar ddelw Duw yn ei olygu i gymdeithas, i’r Eglwys ac i chi’ch hunan?
- Sut mae’r adran hon yn peri ichi feddwl am gyfiawnder a chydraddoldeb?


## GWEDDI

Greawdwr Dduw,
fe’n lluniaist ar dy ddelw.
Boed inni fod yn deg a diduedd
wrth inni ymdrin ag eraill,
gan gofio eu bod
yn frodyr a chwiorydd inni yng Nghrist.
Na foed inni gael ein caethiwo
gan ryw na hil, ond yn hytrach gofio
ein bod oll yn un yn Iesu Grist.

## RHAGLEN CYFIAWNDER RHYWEDD TRAWSNEWIDIOL CYNGOR ANGLICANAIDD ZAMBIA

Bu Eglwys Zambia yn gweithio i wrthweithio trais ar sail rhywedd ers 2012 ac eto mae pandemig Covid-19 wedi gadael merched yn agored i risg cynyddol. Mae’r pandemig wedi gwneud diogelwch bwyd, bywoliaethau, cydlyniant cymdeithasol a diogelwch, yn fwy heriol, gan wneud merched yn fwy agored i drais yn seiliedig ar ryw. Mae’r Rhaglen Cyfiawnder Rhywedd Trawsffurfiol yn anelu at atgyfnerthu grwpiau sy’n cynnig cefnogaeth, gan cynnig gwybodaeth a chynyddu sgiliau drwy’r gymuned gyfan. Cynigir cefnogaeth seico-gymdeithasol a chwnsela yn ogystal â chynyddu’r gallu i godi llais ac ymwybyddiaeth parthed materion yn ymwneud â thrais sy’n seiliedig ar rywedd, mewn cymunedau, yn yr eglwysi ac mewn sefydliadau eraill.

Gwelwch **www.uspg.org.uk/lent** i ddarganfod mwy ac i gefnogi gwaith ein partner-Eglwys yn Zambia.



## ASTUDIAETH 2

# DIWINYDDIAETH COREA

O Affrica symudwn i Asia, gan fod y sesiwn hwn yn canolbwyntio ar Ddiwinyddiaeth Gristnogol yng Nghorea. Ceisiodd Diwinyddiaeth Corea fynd i'r afael â'r realaeth crefyddol a diwylliannol lleol, dan ddylanwad crefyddau sy'n tarddu gyda Confucius a Shaman, yn ogystal â'r realaeth cymdeithasol a nodweddir gan ddioddefaint y tlodion. Mewn llawer ffordd, aeth drwy'r 'bedydd dwbl' a ystyriwyd gan y diwinydd o Sri Lanka, Aloysius Pieris, fel nodwedd ddiffiniol unrhyw Gristnogaeth Asiaidd berthnasol, sef, bedydd dwbl yn Iorddonen crefyddoldeb Asia ac yng Nghalfaria tlodi Asia.




Gwelodd rhai diwinyddion Protestannaidd cynnar debygrwydd rhwng y syniad Cristnogol am Dduw a phen-arglwydd crefydd Confucius (sangje: shangti) gan ddefnyddio idiomau Coreaidd i gyfieithu'r ffydd Gristnogol. Fodd bynnag, yr enwocaf ymhlith mynegiadau diwinyddol Corea yw diwinyddiaeth Minjung. Cymerodd fel man cychwyn ddioddefaint y Minjung (gair sy'n cyfuno dau gymeriad Tseineaidd, sef, min sy'n golygu pobl a jung sy'n golygu torf), term cyffredinol sy'n awgrymu'r bobl gyffredin. Gwelwyd cyfatebiaeth rhwng y Minjung a'r rhai a elwir yn Efengyl Marc yn ochlos (y term Groeg am 'dorf' neu 'bobl'), y rhai ar ymylon cymdeithas yr oedd Iesu'n ei uniaethu ei hun â nhw.

Dygodd Diwinyddiaeth Minjung gwestiynau am dlodi a strwythurau anghyfiawnder i ganol bywyd yr Eglwys yng Nghorea. Dehonglwyd yr efengyl Gristnogol, sydd â chariad at Dduw a chariad at gymydog yn ei chanol, drwy ffrâm rhyddhad a thrawsffurfiant. Nodwedd bwysig o ddiwinyddiaeth Minjung yw'r gydnabyddiaeth fod y Minjung yn ddeiliaid hanes. Yn ganolog iddi, mae thema trawsffurfiant cymdeithasol, lle mae'r Minjung, y rhai annisgwyl, yn asiantau yn eu bywydau eu hunain. Nid yw'n gweld cymunedau gorthrymedig fel dioddefwyr goddefol anghyfiawnder ond, yn hytrach, yn canfod gweithredoedd achubol Duw ar waith yn eu brwydrau.

Mae'r term Minjung yn un hylif ac agored. Yn ei dewis i ddisgrifio'i yn y termau hyn, mae diwinyddiaeth Minjung yn ceisio bod yn ddiwinyddiaeth sy'n seiliedig ar berthynas ac sy'n sefyll ochr yn ochr â brwydrau cymunedau eraill ar draws y byd, wrth iddynt geisio trawsffurfio cyd-destunau anghyfiawn.

# SYLWADAU AR HYN O EGLWYS ANGLICANAIDD COREA

## Gan y Parchg Anthony Gyu-Yong Shim, Esgobaeth Daejeon

Mae gan Eglwys Sant Marc yn Yesan le unigryw yn hanes cenhadol Eglwys Anglicanadd Corea. Pan sefydlwyd yr Eglwys ym 1917, ’doedd gan Yesan ddim cenhadon nac offeiriaid. Fe’i sefydlwyd gan efengylydd lleyg, Man-Jun Ki, brawd ieuengaf offeiriad Coreaidd cyntaf Eglwys Anglicanaidd Corea.

Yn y dyddiau cynnar, bu’r Eglwys yn ymwneud â gwaith cenhadol addysgol drwy ysgolion meithrin ac ysgolion eraill a elwid yn 'Shinmyung' a 'Jinmyung,' sy’n golygu goleuni ffydd a gwirionedd. Yn aml, roedd pobl leol yn gwybod mwy am yr ysgol feithrin nag am yr eglwys, o ganlyniad i’r hanes hir oedd gan yr ysgol feithrin yn y gymuned.

Yn 2017, yn ystod fy amser yn y seminari, deuthum, drwy siawns, i eglwys Sant Marc, a chael y drws ar glo. Roedd chwyn yn tyfu’n wyllt. Edrychais o gwmpas, trois yn ôl, a cheisio mynd ‘nôl i’r car, ond yn sydyn roeddwn mewn dagrau. Roedd yr eglwys hon ar gau ar ei chanfed penblwydd. Ni ddaeth neb i ddathlu, ni ddaeth neb i rannu yn llawenydd y canmlwyddiant. Torrais fy nghalon. Felly, euthum yn ôl i’r seminari a siarad â’m cyd-fyfyrwyr. ‘Dim ond adeilad gwag sydd yno, ond gadewch inni fynd yno i ddathlu’r canmlwyddiant!’.

Felly, ar 19 Hydref 2017, fe benderfynom ni ddathlu gweddi hwyrol yn Eglwys Sant Marc. Aethom ati i chwynnu o gwmpas yr eglwys. Gyda’r Gwir Barchg. Moses Yoo, Esgob Daejeon, fe eisteddom ni o gwmpas y llawr yn yr eglwys wag, cynnau canhwyllau, gan nad oedd trydan yno, a gweddïo gyda’n gilydd. Fe awgrymais i Esgob Yoo ac eraill yn esgobaeth Daejeon y dylem geisio ail-agor yr eglwys. Roeddwn yn hapus iawn iddynt gytuno â’r awgrym. Anfonodd yr Esgob fi fel efengylydd i Sant Marc yn Chwefror 2019. Roedd braidd yn frawychus oherwydd pan ddechreuais nid oedd dim plwyfolion, heb ond fy nheulu i.

Rwy’n aml yn gofyn i mi fy hun, ‘Beth all yr eglwys wneud i’r gymuned leol, ac nid i’r eglwys yn unig?’ Yn ychwanegol at dasgau rheolaidd yr eglwys, megis y litwrgi a gofalu am yr aelodau, rhaid i ni hefyd gysylltu’r eglwys â’r gymuned leol. Sefydlais gylch darllen yn yr eglwys a’i alw’n ‘Gylch Darllen Marc’. Roedd rhai o’r sawl a ddaeth wedi gadael yr eglwys yn y gorffennol; roedd rhai yn Anglicaniaid a rhai ddim. Diolch

i Dduw, fe ddaeth pob un i'r gwasanaeth cyntaf; ac rwy'n dal i gofio emosiwn yr adeg honno.

Mae gennym hefyd raglen a elwir yn 'Theatr Shinmyeong ', lle mae pobl yn dod unwaith y mis i weld ffilm a'i thrafod. Yn ddiweddar, fe ddechreuwyd dosbarth gwaith coed. Rwy'n cynllunio ar gyfer clwb ffotograffiaeth du a gwyn a Gorsaf Ddarlledu yn Yesan.

Yn ychwanegol, pan benderfynodd y llywodraeth y byddai 'Prosiect Adfer: Y Ddêl Newydd' yn digwydd yn yr ardal o gwmpas Sant Marc fe'm penodwyd yn 'gydlynydd pentrefol' a bum yn gweithio ar y prosiect gyda chyngor trigolion y pentref.

Cariad at Dduw a chariad at gymydog yw prif bileri'r Beibl. Mae gan Gristnogaeth ysbrydolrwydd o letygarwch tuag at ddieithriaid.  Rwyf am i Sant Marc fod yn fan lle gall pawb ymweld ag e' yn hawdd. Dod, eistedd a gorffwys; trafod cwestiwn neu ateb, neu cael sgwrs dros baned. Eglwys fach yw Sant Marc, ond rwy'n gobeithio ei bod yn gymydog arwyddocaol yn y gymuned. Rhaid i'r eglwys ddisgleirio gyda hyder gostyngedig yn Iesu.

**Beth all yr eglwys wneud i'r gymuned leol, ac nid i'r eglwys yn unig?**

# TESTUN GWREIDDIOL O COREA:

사순시기 과정 - 한국

심규용 신부와의 인터뷰

예산의 성 마르코 교회는 대한성공회의 역사에서 독특한 위치를 차지하고 있습니다. 1917년 교회가 처음 세워질 때 예산에는 선교사도 목회자도 없었습니다. 성 마르코 교회는 평신도 전도사 김만준이 설립하였는데, 그는 대한성공회 초대 한인 사제의 동생이기도 합니다.

초창기부터 성 마르코 교회는 초창기부터 믿음과 진리의 빛을 의미하는 '신명'이라는 이름의 유치원을 세워 교육 선교를 했습니다. 이렇게 지역 사회 내에서 오랜 역사를 가지고 있기 때문에 지역주민들에게 교회보다 유치원이 더 알려져 있다고 느낄 때가 종종 있습니다.

제가 처음 성 마르코 교회를 처음 와 본 것은 2017년, 신학대학원에 다닐 때였습니다. 도착해 보니 문이 잠겨 있었고 잡초가 정글처럼 자라고 있었습니다. 뒤를 돌아 다시 차에 오르려 하는 순간 갑자기 눈물이 났습니다. 이 교회는 100주년을 맞아 성당도 유치원도 문을 닫았습니다. 축하하러 온 사람은 아무도 없었습니다. 신자수와 유치원생의 감소로 인한 결정이었습니다. 저는 마음이 아팠습니다. 그래서 신학교로 돌아가 신학생들과 이야기를 나눴습니다. '그냥 텅 빈 건물이지만, 거기에 가서 우리가 100주년을 기념하자!'

그렇게 2017년 10월 19일에 성 마르코 교회에서 저녁기도를 하기로 했습니다. 동료들은 함께 교회 주변에서 잡초를 뽑았습니다. 대전교구의 유모세 주교님과 함께 전기가 들어오지 않는 텅 빈 교회 바닥에 촛불을 켜고 둘러앉아 함께 기도했습니다. 저는 유 주교님을 비롯한 대전 교구의 여러 분들께 성 마르코 교회를 다시 열어 보자고 제안했습니다. 다행히 많은 분들이 동의해 주셨습니다. 주교님께서 2019년 2월에 저를 성 마르코 교회에 전도사로 보내 주셨습니다.

저는 종종 '교회가 자신만을 위해서가 아니라 지역사회를 위해서 무엇을 할 수 있을까?' 라고 자문해 봅니다. 전례와 교인 돌봄과 같은 교회의 일상적인 업무 외에도 우리는 교회와 지역사회를 연결하는 임무를 맡고 있습니다. 저는 교회에 '마르코 북클럽'이라는 독서 동아리를 만들었습니다. 독서 모임에 온 사람들 중 일부는 과거에 교회를 떠났던 사람들도 있고, 일부는 성공회 신자였고 일부는 그렇지 않았습니다. 감사하게도 그들은 첫 예배에 참석했습니다. 저는 그 때의 감격을 아직도 기억합니다.

그 외에 '신명 극장'이라는 프로그램도 시작했는데 한 달에 한 번 영화를 보고 이야기를 나누는 모임입니다. 유치원을 활용한 목공 교실도 시작했으며, 몇 개의 동아리들도 만들었습니다. 안타깝게도 현재 코로나 바이러스로 성당과 모임이 문을 닫았습니다. 그러나 이 기간 동안 성당의 부속 공간을 활용한 마을 책방을 꾸미는 공사를 하고 있습니다. 이 공간은 사람과 책을 연결합니다. 보다 많은 문화행사들을 통해 지역적 연대감을 높이고 사람들이 성당을 더 많이 이용할 수 있게 하려는 것입니다.

최근 정부가 성 마르코 교회 주변 지역에서 '도시 재생 뉴딜 사업'을 추진하기로 결정하였고 저는 '마을 코디네이터'로 임명되어 주민협의회와 함께 이 사업을 돕고 있습니다. 교회와 지역은 함께 발전해야 하는 공동운명체이기에 지역의 일에 적극 참여하고 있습니다.

하느님 사랑과 이웃 사랑은 성경의 주요 기둥입니다. 그리스도교는 낯선 사람들을 환대하는 영성이 있습니다. 누구나 쉽게 방문할 수 있는 성 마르코 교회가 되었으면 합니다. 오셔서 앉아 쉬시면서, 종교적 질문이나 답변을 구하거나, 단지 커피 한잔에 이야기를 나누기 위해 오셔도 좋습니다. 성 마르코 교회는 작은 교회이지만 지역 사회의 진정한 이웃이 되기를 바랍니다. 교회는 예수님께 대한 겸손한 확신을 빛낼 필요가 있습니다.

## CWESTIYNAU

- Yn y stori hon, mae'r Parchg Anthony Gyu-Yong Shim, yn gofyn, 'Beth all yr eglwys wneud i'r gymuned leol, ac nid i'r eglwys yn unig?' Sut ydych chi'n gweld y berthynas rhwng yr eglwys a'r gymuned, a beth allwch chi ei wneud i'ch cymuned chi?
- Pa syniadau newydd y gallwch feddwl amdanynt gyda golwg ar ymwneud pellach gyda'ch cymuned leol?
- Sut all eich eglwys chi ymgorffori 'lletygarwch i ddieithriaid'?

## LUC 10: 25-37 (BNET)


25 Un tro safodd un o'r arbenigwyr yn y Gyfraith ar ei draed i roi prawf ar
Iesu. Gofynnodd iddo, "Athro, beth sydd raid i mi ei wneud i gael bywyd
tragwyddol?"
26 Atebodd Iesu, "Beth mae Cyfraith Moses yn ei ddweud? Sut wyt ti'n ei
deall?"
27 Meddai'r dyn: " 'Rwyt i garu'r Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th
holl enaid, â'th holl nerth ac â'th holl feddwl,' a 'Rwyt i garu dy gymydog
fel rwyt ti'n dy garu dy hun.'"
28 "Rwyt ti'n iawn!" meddai Iesu. "Gwna hynny a chei di fywyd."
29 Ond roedd y dyn eisiau cyfiawnhau ei hun, felly gofynnodd i Iesu, "Ond
pwy ydy fy nghymydog i?"
30 Dyma sut atebodd Iesu: "Roedd dyn yn teithio i lawr o Jerwsalem i
Jericho, a dyma ladron yn ymosod arno. Dyma nhw'n dwyn popeth oddi
arno, ac yna ei guro cyn dianc. Cafodd ei adael bron yn farw ar ochr y
ffordd.
31 Dyma offeiriad Iddewig yn digwydd dod heibio, ond pan welodd y dyn
yn gorwedd yno croesodd i ochr arall y ffordd a mynd yn ei flaen.
32 A dyma un o Lefiaid y deml yn gwneud yr un peth; aeth i edrych arno,
ond yna croesi'r ffordd a mynd yn ei flaen.
33 Ond wedyn dyma Samariad yn dod i'r fan lle roedd y dyn yn gorwedd.
Pan welodd e'r dyn, roedd yn teimlo trueni drosto.
34 Aeth ato a rhwymo cadachau am ei glwyfau, a'u trin gydag olew a gwin.
Yna cododd y dyn a'i roi ar gefn ei asyn ei hun, a dod o hyd i lety a gofalu
amdano yno.
35 Y diwrnod wedyn rhoddodd ddau ddenariws i berchennog y llety.
'Gofala amdano,' meddai wrtho, 'Ac os bydd costau ychwanegol, gwna i
dalu i ti y tro nesa bydda i'n mynd heibio.'
36 "Felly" meddai Iesu, "yn dy farn di, pa un o'r tri fu'n gymydog i'r dyn
wnaeth y lladron ymosod arno?" 37 Dyma'r arbenigwr yn y Gyfraith yn
ateb, "Yr un wnaeth ei helpu." A dwedodd Iesu, "Dos dithau a gwna'r un
fath." [BNET]

# CWESTIYNAU

- Mae Iesu'n gorffen y ddameg hon drwy ofyn: "...pa un o'r tri fu'n gymydog i'r dyn wnaeth y lladron ymosod arno?" Pwy yw'r Samariaid Trugarog yn ein cyd-destun ni? Beth allwn ni ddysgu ganddynt?
- Yn eich sefyllfa chi, beth allai 'lladron yn ymosod arnoch' ei olygu?
- Beth yw lle trugaredd ym mywyd yr Eglwys? Sut allwn ni fod yn fwy trugarog?

# GWEDDI

Dduw pob calondid,
Rwyt ti'n dwyn goleuni i'r tywyllwch
A phresenoldeb i fannau gwag.
Boed i ni gael ein gwroli gennyt ti
I gysylltu â'n cymunedau lleol
A bod yn agored iddynt.
Gad inni ddangos lletygarwch i'r dieithryn
A chariad at gymydog, hysbys ac anhysbys.



## ASTUDIAETH 3

# DIWINYDDIAETH RHYDDHAD

O Asia symudwn i America Ladin ac ystyried diwinyddiaeth rhyddhad, a oedd yn chwyldroadol yn nhirlun diwinyddiaeth Gristnogol mewn llawer ffordd. Gyda'i gwreiddiau yn nhlodi America Ladin, fe gondemniodd diwinyddiaeth rhyddhad unrhyw ffurf ar ddiwinyddiaeth oedd yn haniaethol ac nad oedd yn cymryd i ystyriaeth brofiad pobl. Man cychwyn diwinyddiaeth rhyddhad oedd 'opsiwn ffafriol o blaid y tlodion'. Golygai hyn ddiwinydda o safbwynt y tlodion a chydag ymrwymiad i'w rhyddhad.

Fe’i diffiniwyd gan Gustavo Gutierrez, un o arloeswyr diwinyddiaeth rhyddhad, fel ‘adlewyrchu ar arfer yng ngoleuni ffydd’. I Guttierrez, gweithred gyntaf diwinyddiaeth yw gweithredu ewyllys Duw. Dilynir hyn gan yr ail weithred, sef, ymresymu, sy’n ein cynorthwyo i fynd i’r afael â’r cwestiwn, “Sut mae cyhoeddi Duw’r bywyd i bobl sy’n dioddef marwolaethau cynnar ac anghyfiawn?”

Yr hyn sy’n gwahaniaethu diwinyddiaeth rhyddhad America Ladin oddi wrth fathau eraill o ddiwinyddiaeth rhyddhad yw ei bod wedi ei gwreiddio ym mywyd yr Eglwys. Fe’i cofleidiwyd nid yn unig gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn America Ladin, ond roedd iddi wreiddiau hefyd ym mywyd a thystiolaeth cymunedau Cristnogol ar lawr gwlad a adnabyddwyd fel cymunedau eglwysig gwaelodol (base Christian communities neu Communicado Ecclesia de Base mewn Portiwgaleg) yn arbennig ym Mrasil.

Elfen hanfodol o ddiwinyddiaeth rhyddhad oedd cyfranogiad Cristnogol yn y broses o ryddhad drwy solidariaeth. I hyrwyddo cyfranogiad mewn rhyddhad, defnyddiwyd offer o fyd dadansoddi cymdeithasol fel modd i ddeall tlodi fel anghyfiawnder strwythurol, gan geisio gwarchod Cristnogion rhag cael eu sugno i mewn i strwythurau anghyfiawn o’r fath. Fodd bynnag, ni ddeallwyd rhyddhad yn unig mewn termau gwleidyddol a chymdeithasol oedd yn canolbwyntio ar ddileu strwythurau anghyfiawn. Fe’i gwelwyd hefyd yn nhermau diogelu urddas dynol a rhyddhad o hunanoldeb a phechod. Yn hyn o beth, roedd diwinyddiaeth rhyddhad yn pwysleisio’r dimensiwn cyfannol fel un modd o wneud gwerthoedd amgen teyrnasiad Duw o gyfiawnder, heddwch a llawenydd yn bresennol yng nghanol grymoedd systemig oedd yn gwahardd, ecsbloetio a lladd.



# SYLWADAU AR HYN GAN IGREJA EPISCOPAL ANGLICANA DO BRASIL (EGLWYS ESGOBOL ANGLICANAIDD BRASIL)

'Am beth ydych chi'n dadlau wrth gerdded gyda'ch gilydd?' Mae'r cwestiwn hwn yn Luc 24:17 yn adlewyrchu un o bileri diwinydda yn America Ladin. Y cyd-destun: ein cyrff, ein lleoliad daearyddol a geo-wleidyddol, a'n planed. O'r cyd-destun hwn y tardda ac y ffurfir adlewyrchu diwinyddol. Caiff ein hiaith am Dduw a datguddiad Duw ei farcio gan bob cam a gymerwn wrth inni gerdded ar hyd y ffordd. Cymerwn gamau â'n traed, meddyliwn â'n pen a charwn (gweithredwn) â'n calon. Arferir y method hwn gan ddiwinyddion rhyddhad yn America Ladin ac mae'n gyfrifol am broses o ddarllen y Beibl a'n sefyllfa real ni yn feirniadol. Preswylia Duw yn ein plith, ac yn y byd hwn lle mae Duw'n preswylio y profwn ras Duw ac y ceisiwn gyflawni cynllun Duw ar gyfer y deyrnas. Geilw ni o hyd i foment newydd, ac fe'n geilw i fod yn fynegiant ffisegol o ras trawsffurfiol (i ddatguddio gogoniant Duw). Oherwydd geilw Duw ni 'i hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser a byw'n wylaidd ac ufudd i'n Duw' (Micha 6.8) a bob amser i fod yn barod i amddiffyn y rhai mwyaf bregus (Eseia 1) a gwrando ar riddfan y greadigaeth (Rhufeiniaid 8). Galwodd Duw y Parchg Elineide Ferreira Oliveira, dynes ddu, merch i fam sengl, chwaer i bedair dynes a addysgwyd i fod gryf wyneb yn wyneb â'r anghyfartaledd y mae merched yn ei wynebu'n aml ar eu bywyd beunyddiol. Yma mae'n rhoi ei thystiolaeth am sut oedd y ffordd hon o ddiwinydda a bod yn ffyddlon i gyd-destun ac i Dduw yn ffurfiannol i'w gweinidogaeth:

*Rwyf yn offeiriad Anglicanaidd ac yn gweithredu'n fugeiliol yn Ardal Genhadol Rondônia, sy'n rhan o ranbarth yr Amazon. Rwy'n cydlynu'r gwasanaeth diaconaidd o dderbyn merched o sefyllfaoedd treisiol i Dŷ Lloches Noeli dos Santos. Mewn diwinyddiaeth rhyddhad mae gwreiddiau fy holl brofiad – bugeiliol, ysbrydol a phroffesiynol, yn ogystal â'm gradd mewn gwyddorau cymdeithasol. Dyma sy'n ffurfio fy nghred: fod yn rhaid inni fynd i gyfarfod y rhai sy'n anghyffwrddadwy neu'n anweledig. Y modd yma o feddwl a rhoi'r Efengyl ar waith yw'r ddealltwriaeth a gawn drwy ddiwinyddiaeth rhyddhad: Cawn ein cymell i adael lle rydym yn gysurus a gwneud popeth a allwn. Mae'r modd hwn o ddiwinydda wastad yn fy mhryfocio 'i beidio*

*ymddwyn yr un fath â phobl eraill' (gw. Rhufeiniad 12.1-2) ond yn hytrach i geisio ffyrdd o weithredu o blaid y rhai sy'n fwyaf anghenus, a pheidio â bod yn berson sydd am fod yn niwtral mewn sefyllfaoedd o anghyfiawnder. Fel y dywedodd yr Archesgob Desmond Tutu, 'Os ydych yn niwtral mewn sefyllfaoedd anghyfiawn rydych yn dewis ochr y gorthrymydd'.*

*Felly, rwyf wedi cryfhau a meithrin fy hunan drwy esbonio dysgeidiaeth Iesu fel rhyddhäwr amodau o anghyfiawnder cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. Credaf mewn Duw cariad a thrugaredd nad yw'n gwahaniaethu rhwng ei ferched a'i feibion (Actau 10.34). Rwy'n addef ffydd mewn Duw sy'n ymfalchïo mewn arfer da (Jeremeia 9.24) gan warantu i bob person ei hawl heb sarnu hawliau person arall; hau hadau da i bawb yn ddiwahân.*

*Dyma'r Duw, ffynhonnell cariad tuag atom ni a'n cymydog, sy'n ein gwahodd i ddilyn ar hyd y ffordd hon (gw. Luc 10.25-37; Mathew 22.39; Lefiticus 19.18). Dyma graidd diwinyddiaeth rhyddhad. Mae'n meithrin 'ein hochr dda', sef, ceisio byw mewn cytgord gyda'r bydysawd yn hytrach na chreu casineb ac anghyfartaledd. Dyma'r Duw a ddilynaf ac a gredaf ynddo.*

**Rhaid i ni fynd i gyfarfod y sawl sy'n anghyffwrddadwy neu'n anweledig**

## Y TESTUN GWREIDDIOL O BRASIL:

'Do que vocês estão falando no caminho?'. Essa pergunta em Lucas 24:17 reflete um dos pilares da elaboração teológica que se faz na América Latina: o contexto: do corpo pessoal, do território geográfico e geopolítico e do planeta. É a partir do contexto que a reflexão teológica emerge e se forma. A linguagem sobre Deus e sua revelação é marcada por onde pisam os pés. Onde pisam os pés, a cabeça pensa e o coração ama (age). Esse método praticado pelas Teologias da Libertação em terras latino-americanas é responsável pelos processos de leitura crítica da realidade e da Bíblia. Deus habita entre nós e é nesse mundo habitado que experimentamos sua graça e procuramos cumprir seu projeto do Reino. Deus chama a gente pra um momento novo sempre, e chama para sermos uma expressão física (revelar sua glória) da sua graça transformadora. Pois Deus nos pede que 'pratiques a justiça, ames a bondade e andas humildemente com ele' (Miquéias 6.8) e que sempre estejamos prontas para defender as pessoas mais vulneráveis (Is 1) e escutarmos os gemidos da criação (Rom 8).

Deus chamou a Reverenda Elineide Ferreira Oliveira, mulher negra, filha de mãe solo, irmã de quatro mulheres educadas para serem mulheres fortes para enfrentam a vida de muitas desigualdades que as mulheres vivenciam em sua jornada diária.

Ela dá seu testemunho de como esse jeito de fazer teologia e de ser fiel ao seu contexto e a Deus formou seu ministério:

Eu sou reverenda e atuo pastoralmente no Distrito Missionário na região de Rondônia, região norte do Brasil dentro da Amazonia Legal, e coordeno o serviço diaconal de acolhimento a mulheres em situação de violência da Casa de apoio Noeli dos Santos. Toda minha vivencia, prática pessoal, pastoral, espiritual e profissional, sou formada em serviço social, tem suas raízes na teologia da libertação, se encaixa no que acredito conforme minha pratica e experiencia em comunidade, que devemos ir ao encontro de quem está margem e invisibilizada/o. É fazer-se presente como voz profética dos ensinamentos de Deus, não somente dentro de nossos templos mas fora dele, colocando na pratica a teoria conforme entendimento dos ensinamentos de Deus diante ao que ouvimos e aprendemos nas homilias em nossas comunidades. Esta concepção

e forma de viver o evangelho de Deus, é a melhor interpretação que a teologia da libertação nos oferta e nos encoraja a sair de nossa zona de conforto a fazer o que ao nosso alcance. Esse método de fazer teologia me provoca continuamente a não me conformar (cf Rom 12.1-2) e a buscar mecanismos para agir em favor de quem mais necessita e nunca ser uma pessoa que pretende ser NEUTRA em situações de injustiça. Como diz o Arcebispo Emérito Desmond Rutu 'Se você fica neutro em situações de injustiça você escolhe o lado do opressor'.

Assim tenho me fortalecido e alimentado através desta corrente de pensamentos interpretando ensinamentos de Jesus Cristo como libertadores de injustas condições sociais, políticas e econômicas.

Acredito em um Deus de amor, misericórdia que não faz distinção entre seus filhos e filhas (Atos 10.34). Professo a fé em um Deus que se orgulha das boas práticas (Jeremias 9.24) garantindo nosso direito sem ferir o direito do outro, utilizando da ação da boa semeadura, semeando o bem sem olhar a quem.

Este Deus, fonte de amor para nós mesmos e para nosso próximo, nos pede que o sigamos neste caminho (cf. Lucas 10.25-37; Mateus 22.39; Levítico 19.18). Este é também o núcleo de nosso discurso religioso conhecido como teologia da libertação. Ela propõe e alimenta nosso "lado bom", que é procurar viver em harmonia com o universo, e não fomentar o ódio e a desigualdade. Este é o Deus que eu sigo e acredito.

## CWESTIYNAU

- Sut y gallwn gerdded ochr yn ochr â'r mwyaf bregus yn y gymdeithas?
- Mae'r Parchg Elineide Ferreira Oliveira yn trafod sut mae diwinyddiaeth rhyddhad yn ei gwthio allan o'i mannau cysurus. Sut mae diwinyddiaeth yn eich herio chi a'ch ffordd o fyw?
- Disgrifir Iesu gan y Parchg. Elineide Oliveira fel 'rhyddhawr'. Beth, yn eich tyb chi, sydd angen ei ryddhau yn ein cymdeithas ni, ein heglwys ni ac ynom ni'n hunain?

## MICHA 6: 1 – 8 (BNET)

1 Gwrandwch beth mae'r ARGLWYDD yn ei ddweud: "Codwch i amddiffyn eich hunain o flaen y bryniau a'r mynyddoedd!

2 Chi fynyddoedd a sylfeini'r ddaear wrandwch ar gyhuddiad yr ARGLWYDD." Mae'n dwyn achos yn erbyn ei bobl. Mae ganddo ddadl i'w setlo gydag Israel.)

3 "Fy mhobl, beth wnes i o'i le? Beth wnes i i'ch diflasu chi? Atebwch!

4 Fi wnaeth eich achub chi o wlad yr Aifft, a'ch rhyddhau o fod yn gaethweision. Anfonais Moses i'ch arwain, ac Aaron a Miriam gydag e.

5 Fy mhobl, cofiwch beth roedd Balac, brenin Moab, am ei wneud, a sut wnaeth Balaam fab Beor ei ateb. Cofiwch beth ddigwyddodd rhwng Sittim a Gilgal – i chi weld fod yr ARGLWYDD wedi'ch trin yn deg." Beth ddylai ymateb y bobl fod?

6 Sut alla i dalu i'r ARGLWYDD? Beth sydd gen i i'w gynnig wrth blygu i addoli y Duw mawr? Ydy aberthau i'w llosgi yn ddigon? Y lloi gorau Ref i'w llosgi'n llwyr? Fyddai mil o hyrddod yn ei blesio, neu afonydd diddiwedd o olew olewydd?

7 Ddylwn i aberthu fy mab hynaf yn dâl am wrthryfela? – rhoi bywyd fy mhlentyn am fy mhechod?

8 Na, mae'r ARGLWYDD wedi dweud beth sy'n dda, a beth mae e eisiau gen ti: Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw.' [BNET]

## CWESTIYNAU

- Yn yr adran hon, darllenwn am weddi fel pledio achos Duw "…o flaen y bryniau a'r mynyddoedd!" a gwahodd y "…mynyddoedd a sylfeini'r ddaear i wrando ar gyhuddiad yr ARGLWYDD." Beth ydych chi ar dân amdano sy'n peri ichi droi at Dduw mewn gweddi?

- Sut y gallwch 'Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd' yn eich sefyllfa leol?
- Meddyliwch am sut y gallwch 'fyw'n wylaidd' nid yn unig ochr yn ochr â Duw ond ochr yn ochr â'ch cymdogion – yn eich cymuned ac yn yr eglwys ar draws y byd.


## GWEDDI

Dduw sy'n rhyddhau,
Arwain ni ar hyd y ffordd gyfiawn.
Cod y baich oddi ar ein hysgwyddau,
Cliria'n meddyliau a llanw'n calonnau â chariad.
Boed inni gerdded gyda'r bregus
A hau hadau daioni lle bynnag yr awn.
Gad inni geisio cyfiawnder, heddwch a chytgord.

## EGLWYS ESGOBOL ANGLICANAIDD BRASIL: TŶ LLOCHES CASA NOELI

Gyda'r cynnydd mewn achosion trais domestig yn erbyn merched ym Mrasil, ymrwymodd Eglwys Esgobol Anglicanaidd Brasil i weithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu canolfan loches i ferched sy'n dioddef trais yn eu cartref. Yn 2011, agorodd yr Eglwys Dŷ Lloches Casa Noeli dos Santos fel hafan ddiogel i ferched a'u plant oedd mewn sefyllfaoedd treisiol. Er mwyn sicrhau diogelwch, cyflwynir enwau i'r ganolfan drwy'r heddlu ac amrywiol wasanaethau cymdeithasol. Unwaith eu bod yno, gallant gael mynediad i ofal seico-gymdeithasol, cwnsela, cefnogaeth gyfreithiol, cyrsiau galwedigaethol, cefnogaeth mewn cyflogaeth a'u cyfeirio at y rhwydwaith gofal.

Ymwelwch â **www.uspg.org.uk/lent** i ddarganfod mwy ac i gefnogi gwaith ein partner-Eglwys ym Mrasil.



## ASTUDIAETH 4

# YSBRYDOLRWYDD CELTAIDD

Symudwn y tro hwn o America Ladin i gyd-destun Prydain ac Iwerddon, gan ganolbwyntio ar y Gristnogaeth Geltaidd a darddodd yn y gwledydd Celtaidd yn y Canol Oesoedd cynnar. Er gwaethaf yr amrywiaeth ymhlith eglwysi Celtaidd heddiw, sy’n gwneud y syniad o un eglwys Geltaidd gynnar unffurf yn anodd, ysywaeth eu bod yn bosibl sôn am Ysbrydolrwydd Celtaidd fel casgliad o nodweddion sy’n clymu’r eglwysi hyn wrth ei gilydd. I Gristnogion yn fyd-eang, ymhlith yr adnoddau ysbrydol Celtaidd mwyaf cyfarwydd mae symbol y Groes Geltaidd ac Arfwisg Sant Padrig, sef, y weddi am amddiffynfa a briodolir, gan amlaf, i Sant Padrig. Mae’r symbolau hyn yn cynrychioli natur fyd-eang ysbrydolrwydd Celtaidd a phwysigrwydd pererindod oddi mewn i Gristnogaeth Geltaidd.




Ystyrir bod ysbrydolrwydd Celtaidd wedi datblygu dan ddylanwad sawl traddodiad, gan gynnwys traddodiadau paganaidd a thraddodiadau mynachaidd y tu hwnt i'r cyd-destun Celtaidd. Mae'n enghraifft dda o natur ryng-ddiwylliannol ysbrydolrwydd Cristnogol. Ceir dimensiwn cryf o fod o blaid bywyd mewn ysbrydolrwydd Celtaidd, sy'n seiliedig ar ddiwinyddiaeth ymgnawdoliad. Gwelir Duw fel un sy'n cofleidio'r byd. Daw'r dimensiwn hwn i'r wyneb yn y modd y mae ysbrydolrwydd Celtaidd yn dathlu sancteiddrwydd y cyffredin. Gellir cysylltu hyn hefyd â gweledigaeth sagrafennol y Celtiaid sy'n dirnad Duw yn a thrwy'r cread cyfan. Ceir adleisiau yn y weledigaeth hon o'r traddodiad Beiblaidd o bresenoldeb Duw yn y byd.

Nodir y nodweddion pwysig canlynol o ysbrydolrwydd Celtaidd gan Oliver Davies: pwyslais cryf ar ddiwinyddiaeth yr ymgnawdoliad, ymddangosiad natur fel thema amlwg ond heb weld natur fel gwrthrych sydd yno i wasanaethu dynoliaeth, pwyslais ar greadigrwydd a dychymyg dynol a darlun cadarnhaol sy'n grymuso merched.

Yn ôl Oliver Davies, yn ddiwinyddol, yr hyn sy'n uno'r nodweddion amrywiol hyn yw athrawiaeth y Drindod, "a fu'n ffurfiannol iawn yn nychymyg crefyddol y Celtiaid cynnar." Yn yr agweddau hyn ar ysbrydolrwydd Celtaidd y mae potensial nid yn unig i fynd i'r afael â rhai o'r heriau pwysicaf sy'n wynebu pobl heddiw, ond hefyd i ddod wyneb yn wyneb â'r dwyfol yng nghanol y cyffredin a'r ymylol a hynny, ar brydiau, er gwaethaf yr heriau hyn.

# SYLWADAU AR HYN O EGLWYS IWERDDON

Gan y Canon Patrick Comerford, Offeiriad-mewn-Gofal yng Nghylch Plwyfi Rathkeale a Chyfarwyddwr Addysg a Hyfforddi yn Esgobaeth Limerick a Killaloe

Y mae Eglwys Iwerddon yn wahanol iawn i nifer o'r aelod-Eglwysi eraill yn y Cymundeb Anglicanaidd: rydym yn eglwys sy'n croesi'r ffin, gan ein bod, yn ddaearyddol, yn cynnwys Gweriniaeth Iwerddon yn ogystal â Gogledd Iwerddon. Y mae pedair o'r un-ar-ddeg esgobaeth yn croesi'r ffin ac y mae ambell fywoliaeth hyd yn oed yn ffeindio'i hunan ar y naill ochr a'r llall i'r ffin. Gwelir hanner yr Eglwys yn yr Undeb Ewropeaidd a hanner yr Eglwys yn y Deyrnas Gyfunol.  Y mae'r problemau sy'n deillio o hyn yn llawer mwy – a llawer dyfnach – na'r dewis o nwyddau ar silffoedd archfarchnadoedd neu'r disgwyliadau gwahanol parthed iechyd neu addysg. Creodd Brexit broblemau a rhaniadau ar draws yr ynys sydd gyda'r mwyaf heriol ers cytundebau heddwch y '90au.

Ceir nifer o heriau a chyfleoedd cenhadol ym mywyd Eglwys Iwerddon heddiw mewn  cyd-destun sy'n hylif ac yn anodd ei ragweld. Ar wahân i ofnau y gallai trais gwleidyddol a sectyddol ddychwelyd, mae'r holl eglwysi ar yr ynys yn wynebu cwestiynau heriol am amrywiaeth diwylliannol a gwleidyddol a'r angen am sicrhau parch ar draws cymunedau. Oherwydd ofnau parthed sectyddiaeth, y cof am drais yn y gorffennol a'r materion hynny na chawsant fynegiant eto, mae perygl fod unrhyw sgwrs ar draws cymunedau yn medru arwain at ddiffyg hygrededd a pharch.

Yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae newidiadau mewn diwylliant a gwerthoedd yn adlewyrchu cymdeithas sy'n newid: nid Gwyddeleg yw'r ail iaith bellach gan iddi ildio'i lle i'r iaith Bwylaidd ac ieithoedd Tseineaidd; drwy refferendwm, ac nid drwy broses gyfreithiol, mae'r boblogaeth wedi pleidleisio o blaid priodas gyfartal a newidiadau yng nghyfraith erthyliad; collodd yr Eglwysi yr hygrededd a'r awdurdod cyhoeddus a oedd ganddynt cynt, nid yn unig drwy gynnydd mewn seciwlariaeth ond hefyd o ganlyniad i achosion gwarthus o gam drin. Cafodd yr agenda wleidyddol ei llethu gan bryder am brinder tai, am broblemau digartrefedd ac am ofal iechyd. Mae lobi'r dde eithafol yn uchel ei chloch yn gwrthwynebu mewnfudiad a'r rhaglenni

brechiadau cyhoeddus, ac yn rhoi llais i hilyddiaeth, senoffobia, Islamoffobia a gwrth-Semitiaeth. Er mai nifer fechan yw'r lleisiau hyn ar hyn o bryd, mae eu presenoldeb yn peri pryder.

Nid yw'r ffaith fod fy mhlwyf i yn Ne Orllewin Iwerddon, yn golygu ein bod wedi'n hynysu rhag y profiadau hyn. Mae hygrededd yr eglwys yn pylu, ond eto mae angen i'w llais gael ei glywed yn tystio ar faterion y dydd ac yn llefaru o blaid pobl fregus, pobl ar yr ymylon, rhai sydd wedi eu hesgeuluso, a lleiafrifoedd.

Mewn enghraifft o gymhwyso'r ddealltwriaeth o'r 'maen a wrthodwyd gan yr adeiladwyr', mae'r tair brif eglwys yng Ngorllewin Limerick wedi noddi prosiect i greu cyd-ddealltwriaeth a man-cyfarfod lle gall Sipsiwn a Theithwyr (sy'n lleiafrif eithaf sylweddol yn yr ardal) rannu gyda phobl yn ardal Rathkeale sy'n ofni colli eu safle cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Wrth i'r eglwys edrych arni ei hunan unwaith eto, mae angen iddi boeni llai am ei hygrededd a sut y caiff ei chanfod gan eraill a bod yn fwy parod i fynd i'r afael â'r materion hyn, hyd yn oed pan allai hynny fod yn gostus.

Felly, mae'n 'rhaid i ni gael gwared ar bopeth drwg o'n bywydau – pob twyll, balchder dauwynebog, cenfigennu wrth eraill ac enllibio pobl' (1 Pedr 2.1). Yn hytrach na phoeni am ein parhad, ein cyllid neu'n strwythurau, mae angen inni ymddiried yng Nghrist, 'y garreg [sy'n fyw] gafodd ei gwrthod gan bobl' ( ad 2-4), fel y gallwn wahodd pobl i 'dŷ ysbrydol' ac ymuno â'r rhai sydd 'wedi'u dewis yn offeiriaid i wasanaethu'r Brenin, yn genedl sanctaidd, yn bobl sy'n perthyn i Dduw' (ad 5 a 9).

“

**Rydym yn eglwys sy'n croesi'r ffin, gan ein bod, yn ddaearyddol, yn cynnwys Gweriniaeth Iwerddon yn ogystal â Gogledd Iwerddon**

## CWESTIYNAU

- Beth yw'r prif bynciau gwleidyddol a chymdeithasol yn eich plwyf neu'ch ardal chi? Ydy'ch eglwys chi'n unedig yn ei hymateb i'r materion hyn?
- Pa ffiniau, gweledig neu anweledig, sydd rhwng rhannau gwahanol o'ch cymuned chi?
- Ym mha ffyrdd y mae'ch eglwys chi'n galluogi lleisiau'r bobl bregus i gael eu clywed?

## 1 PEDR 2: 1-10 (BNET)

1 Felly, rhaid i chi gael gwared â phopeth drwg o'ch bywydau – pob twyll, balchder dauwynebog, cenfigennu wrth eraill ac enllibio pobl.

2 Yn lle gadael i bethau felly eich rheoli chi dylech chi fod yn crefu am y llaeth ysbrydol pur fydd yn gwneud i chi dyfu yn eich ffydd.

3 Gan eich bod chi eisoes wedi cael blas ar mor dda ydy'r Arglwydd, dylech fod yr un fath â babi bach newydd ei eni sydd eisiau dim byd arall ond llaeth ei fam.

4 Mae'r Arglwydd fel carreg sylfaen, ond un sy'n fyw. Dyma'r garreg gafodd ei gwrthod gan bobl, ond roedd wedi'i dewis gan Dduw ac yn werthfawr iawn yn ei olwg. Felly wrth i chi glosio at yr Arglwydd

5 dych chi fel cerrig sy'n fyw ac yn anadlu, ac mae Duw yn eich defnyddio chi i adeiladu ei 'deml' ysbrydol. A chi hefyd ydy'r offeiriaid sydd wedi cael eich dewis i gyflwyno aberthau ysbrydol i Dduw. Aberthau sy'n dderbyniol o achos beth wnaeth Iesu Grist.

6 Dyma pam mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud fel hyn: "Edrychwch! Dw i'n gosod yn Jerwsalem garreg sylfaen werthfawr sydd wedi'i dewis gen i. Fydd y sawl sy'n credu ynddo byth yn cael ei siomi."

7 Ydy, mae'r garreg yma'n werthfawr yn eich golwg chi sy'n credu. Ond i'r rhai sy'n gwrthod credu: "Mae'r garreg wrthododd yr adeiladwyr wedi cael ei gwneud yn garreg sylfaen,"

8 Hon hefyd ydy'r "garreg sy'n baglu pobl a chraig sy'n gwneud iddyn nhw syrthio." Y rhai sy'n gwrthod gwneud beth mae Duw'n ei ddweud sy'n baglu. Dyna'n union oedd wedi'i drefnu ar eu cyfer nhw.

9 Ond dych chi'n bobl sydd wedi'ch dewis yn offeiriaid i wasanaethu'r Brenin, yn genedl sanctaidd, yn bobl sy'n perthyn i Dduw. Eich lle chi ydy dangos i eraill mor wych ydy Duw, yr Un alwodd chi allan o'r tywyllwch i mewn i'w olau bendigedig.


10 Ar un adeg doeddech chi'n neb o bwys, ond bellach chi ydy pobl Dduw. Ar un adeg doeddech chi ddim wedi profi trugaredd Duw, ond bellach dych wedi profi ei drugaredd. [BNET]

# CWESTIYNAU

- Pwy ddaw i'ch meddwl pan feddyliwch am 'Y carreg wrthododd yr adeiladwyr'? Sut y gallwch eu cynnwys yn eich eglwys yn fwy effeithiol?
- Fe'n gelwir i fod yn 'gerrig bywiol i ddatguddio gobaith bywiol'. Beth mae hynny'n ei olygu i'r byd heddiw?
- "Ar un adeg doeddech chi'n neb o bwys, ond bellach chi ydy pobl Dduw". Beth mae hyn yn ei olygu i chi fel eglwys?

## GWEDDI

Hollalluog Dduw,
ni all unrhyw ffin gyfyngu dy gariad a'th drugaredd.
Rwy ti'n cyrraedd y mannau anghysbell
A'r bobl mwyaf annisgwyl.
Boed i ni efelychu dy haelioni,.
Gan garu a pharchu pawb o'n cwmpas.
Helpa ni i adeiladu ymdeimlad
o gymuned, ymddiriedaeth ac urddas.
Dysg ni i fod yn gerrig byw.



## ASTUDIAETH 5

# DIWINYDDIAETH DALIT

Yn ein sesiwn olaf, cawn ystyried diwinyddiaeth Dalit, diwinyddiaeth rhyddhad sy'n cymryd fel ei man cychwyn brofiad y cymunedau Dalit o ddioddefaint. Dan yr hen drefn 'caste' yn India, fe'u gelwid gynt yn bobl 'anghyffwrdd' (untouchable). Daeth diwinyddiaeth Dalit i'r amlwg yn yr 1980au fel ymateb i'r rhagfarn parhaus yn erbyn y Dalit yng nghymdeithas India yn ogystal ag yn yr eglwysi.

Y mae cadarnhau hunaniaeth a rhyddhad cymdeithasol a gwleidyddol yn ganolog i ddiwinyddiaeth Dalit. Disgrifir diwinyddiaeth Dalit gan James Massey, arloeswr yn y ddiwinyddiaeth hon o Ogledd India, fel diwinyddiaeth sy'n cynorthwyo'r Dalit "yn eu hymchwil am fara beunyddiol ac yn eu hymdrechion i oresgyn eu sefyllfa o orthrwm ac anghyfiawnder ac o wadu'u hawliau dynol a'u hunaniaeth." Felly mae diwinyddiaeth Dalit yn ceisio rhoi mynegiant cadarnhaol o'u hunaniaeth a'u diwylliant, tra'n ceisio trawsnewid y strwythurau sy'n eu gorthrymu oherwydd iddynt gael eu hystyried yn llygredig ac israddol. Ailafaelir mewn symbolau megis y drwm Dalit, caneuon gwerin Dalit a'u gweithgareddau cymunedol, a sugnwyd i mewn i'r diwylliant cyffredin yn y gorffennol neu a ystyriwyd yn llygredig, a'u defnyddio yn hytrach fel adnoddau ar gyfer diwinydda Cristnogol, gan eu bod yn cynnig naratif cyfoethog am Dduw sy'n cyfranogi yn y cymunedau Dalit ac ar waith ynddynt a thrwyddynt.



Defnyddia diwinyddiaeth Dalit hefyd amrywiol fodelau Beiblaidd o Dduw. Ar un llaw, yn y delweddau Beiblaidd am y gwas dioddefus a welir yn Eseia, a'r Crist croeshoeliedig sy'n ymdeimlo ar y groes â chael ei wrthod gan Dduw, gwêl y Dalit Dduw yn dod yn un ohonynt hwy, a soniant am 'Dduw Dalit'. Ar y llaw arall, maent hefyd yn cofleidio'r Duw sy'n rhyddhau ac arwain ei bobl allan o gaethiwed a gorthrwm yn yr Aifft (yn Llyfr Exodus), ac yn gweld Iesu'r efengylau fel un sydd, drwy ei weithredoedd o iachau a chyd fwyta, yn tanseilio'r strwythurau sy'n cau allan ac yn gwahaniaethu yn erbyn y bobl sydd ar yr ymylon. Yn y modelau hyn, dônt o hyd i adnoddau sy'n eu grymuso i barhau gyda'u hymdrechion dros gyfiawnder a llawnder bywyd.

## SYLWADAU AM HYN O EGLWYS GOGLEDD INDIA

Mae Ramu yn crïo am nad yw'n cael chwarae gyda'r plant eraill. Nid yw ei fam yn cael casglu dŵr o'r ffynnon gyda'r mamau eraill. Mae tad Ramu wedi ei gloi mewn cylch o ddyled oherwydd rhodd fechan y gwnaeth ei sicrhau i'w ferch; nid oes ganddo unrhyw ffynhonnell, heblaw llafur ei ddwylo, i ad-dalu'r benthyciad. Dwy fraich a choes yw'r pris a dalwyd gan y tad Dalit hwn i sicrhau cyfiawnder i'w ferch a dreisiwyd gan gang. Caiff rhai storïau tebyg am y Dalit eu hadrodd, ond cedwir llawer yn dawel.

Ceir tua 230 miliwn o Ddalitiaid yn India. Dioddefa'r cymunedau hyn, a ystyrir yn 'wrthodedig' (outcaste), o gael eu gwahardd o gymdeithas a dioddefant hefyd o ragfarn, a'r cyfan oherwydd y system 'caste', system o haeniad cymdeithasol sy'n gosod cymunedau mewn trefn hierarchaidd ar sail eu tarddiadau neu'u galwedigaeth. Ystyrir Dalitiaid yn 'anghyffwrddadwy' er bod cyfansoddiad India yn gwahardd hyn. Y mae'r term 'anghyffwrddadwy' yn cyfeirio at briodoli anabledd cymdeithasol i'r bobl hyn am iddynt gael eu geni i ddosbarth neu caste arbennig. O ganlyniad maent wedi eu gwahardd yn systematig o brif ffrwd datblygiad, ac ychydig iawn ohonynt sydd wedi eu cyflogi mewn diwydiannau Indiaidd sy'n talu cyflogau da. Fodd bynnag, neilltuir swyddi a dybir sy'n llygru pobl, megis casglu sbwriel a charthion, twrio mewn safleoedd sbwriel a thendio lleoliadau lle yr amlosgir cyrff y meirw, yn unswydd iddynt hwy fel modd o'u cadw ar ymylon cymdeithas ar sail ensyniadau o burdeb a llygredd crefyddol. Caiff ensyniadau o raniadau a hierarchaeth ar sail caste eu cryfhau drwy arfer neu fygwth gwahardd y Dalitiaid o fywyd cymdeithasol, eu boicotio'n economaidd a'u treisio'n gorfforol. Ar ben hyn, mae merched Dalit mewn perygl arbennig o'u treisio'n rhywiol.

Y mae Datganiad Cenhadol Eglwys Gogledd India yn ffocysu'n glir iawn ar gyflwr pobl sydd ar yr ymylon. Ei amcan yw 'adfer cyfanrwydd creadigaeth Duw drwy fynd i'r afael yn gyson â grymoedd demonig drwy ddymchwel ffiniau caste, dosbarth, rhyw, anghydraddoldeb economaidd ac ecsbloetio natur.

Caiff ei ysbrydoli gan y gred fod efengyl Crist yn efengyl Rhyddhad, sy'n grymuso'r tlodion a'r gorthrymedig a'u galluogi i weithio dros eu rhyddhad eu hunain o afael pob ffurf ar gaethwasiaeth a sylweddoli eu llawn botensial. Ers 2015, bu Bwrdd

Cymdeithasol Eglwys Gogledd India, mewn cydweithrediad ag USPG, yn gweithio dros rhyddhau'r Dalitiaid a'r Cymunedau Llwythol ar draws nifer o esgobaethau. Ysbrydolir y rhaglen hon, dan yr enw 'Gadewch i'm pobl fynd', gan y stori am Foses yn mynnu rhyddhad yr Israeliaid a hwythau'n ennill rhyddid o gaethwasiaeth drwy nerth Duw.

Gan fod Duw yn greawdydd pawb oll, dylai newyddion da teyrnasiad Duw fod yn dda i bawb hefyd. Drwy'r rhaglen hon, mae'n brodyr a'n chwiorydd Dalit yn ymgymryd â gweithgarwch codi-arian er mwyn cynyddu incwm teuluol. Canlyniad hyn yw y medrant fforddio addysg a bwyd maethlon i'w plant, a bydd hyn yn medru torri cadwyni 'caste'. Yn ychwanegol, caiff cymunedau Dalit fynediad at ddŵr yfed glân a charthffosiaeth priodol. Bydd hyn yn dra effeithiol i atal trais rhywiol yn erbyn menywod a merched ifanc fyddai, heblaw hyn, mewn perygl a gael ymosod arnynt pan maent yn cerdded gryn bellter o'u cartrefi i 'nôl dŵr. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen wedi galluogi cynulleidfaoedd i rannu yng nghenhadaeth Iesu a gweithredu mewn solidariaeth â chymunedau gorthrymedig a dwyn llygedyn o obaith a gwen i'w hwynebau.

“

**Efengyl Rhyddhad yw efengyl Crist, sy'n nerthu'r tlawd a'r gorthrymedig**

# Y TESTUN GWREIDDIOL O INDIA:

रामू अन्य बच्चों के साथ शामलि होकर नहीं खेल पा रहा था, और एक और मैदान के कनिारे बबूल के पेड़ के नीचे बैठ कर मोटी मोटी आंसूओं के साथ ससिकियाँ ले रहा था पर फरि भी कोई भी बच्चा उससे बुला कर खेल में शामलि नहीं कर रहा था , क्यूंकि दूसरे बच्चों के साथ उसे खेलने अनुमति नहीं थी| उसकी माँ भी अन्य महलिाओं की तरह अपने गहर आँगन में स्वतंत्र रूप से एक दूसरे से बात करते और मलि जलि कर काम नहीं कर सकती थी और ना ही उसे गाँव के कुंवे का पानी नकिालने की अनुमति नहीं थी जब तक कि पूरे गाँव की महलिाएं पानी भर कर ख़तम न कर लेती और चली जाती| रामू के पतिा क़र्ज़ के चक्रव्यू में फंसे है| घर पर बड़ी मुश्कलि से सुख की रोटी जुगाड़ कर पाता था क्यूंकि अपनी बेटी के साथ हुए सामूहकि दुष्कर्म  पर न्याय पाने के लएि थाना और कोर्ट के चक्कर लगाने के सलिसलिे में बड़ी रकम उधार लएि हुए है| काम के तौर पर दहिाड़ी मजदूरी कर नर्भिर है, जसिमें भी महीने के आदी दनि कोर्ट और कचहरी के चक्कर लगाने में दनि नकिल रहे थे और एक ओर उधार का बोझ बढ़ता जा रहा था| उसकी बेटी के साथ  सामूहकि दुष्कर्म के बाद, आसपास और खुद के गाँव के लोग रामू के परविार को हीन नज़रों से देखने लगे| जात से तो दलति था ही पर इस घटना के बाद उसका पूरा परविार और भी टूट गया था| आसपास लोगों ने काम देना बंद कर दयिा| महलिाएं रामू की माँ से बात करना बंद कर दी| भेदभाव का अनुभव और भी बढने लग रहा था|  राशन की दूकान में उधार मलिना बंद हो गया, और हर दनि पूरा परविार अपनी बेटी के साथ हुए घटना की न्याय के लएि दर दर भटक रहा था| रामू के पतिा के पास और कोई भी साधन नहीं है जसिसे कि वह लोन चुका सके सविाय मजदूरी की कमाई| इस दलति पतिा ने अपनी बेटी के साथ हुए घटना के लएि जो कीमत चुकाई, ऐसी कुछ ही हादसों को आवाज़ दी जाती है और कई अनकही ही रह जाती है |

हासयि पर खड़ा दलति समाज आज भी भेदभाव का शकिार हो रहा है| आज लगभगभारत की आबादी का 16.6 % आबादी दलति हैं| और इन्हीं प्रकार की परस्थितियिों से रोज़ जूझते हैं और हर दनि वो अछूत माने जाते है, जौभि कि भारतीय संवधिान में छुआछूत को लेकर ऐसा कोई वविरण नहीं है और ना ही संवधिान इससे बढ़ावा देती है बल्कि भारत का संवधिान उद्देशकिा में इस बात पर प्रकाश डालती और कहती है: “हम भारत के लोग भारत को एक सम्पूर्ण प्रभुत्वा संपन्न, समाजवादी पंथ नरिपेक्ष लोकतंत्रात्मक गणराज्य बनाने के लएि तथा उसके समस्त नागरकिों को सामजकि, आर्थकि, और राजनैतकि न्याय, वचिार, अभव्यिक्ति, वश्विास, धर्म और उपासना की स्वतंत्रता, प्रतष्ठिा और औसर कि समता प्राप्त करने के लएि तथा उन सब में, व्यक्ति की गरमिा और राष्ट्र की एकता और अखंडता सुनश्चिति करने वाली बन्धुता बढ़ाने के लएि दृढ संकल्प हैं |” ये पक्तयिां इस बात को प्रमाणति करती हैं कि भारत के संवधिान की नजर में भी हर नागरकि सामाजकि स्तर पर एक सामान है|

“छुआछूत” –कुछ जातयिों में जन्म से ही उनकी अक्षमताओं पर आरोपण कयिा जाता है| जोकि हमारे समाज में एक कठोर सामाजकि स्तरीकरण और एक खोखली पारंपरकि पद्धति को दर्शाती है | कुछ गतविधियिों का अमलीकरण जैसे, सामाजकि,आर्थकि बहष्किार और शारीरकि शोषण, जातयिा वभिाजन को मजबूत करता जा रहा  है| आज भारत में

महिलाएं विशेष तौर से शारीरिक हिंसा का शिकार हैं | भारत में उच्चतारिया उद्योगों में दलितों का प्रदर्शन निराशपूर्ण है, उनका काम और नौकरियां साफ़ सफाई के स्तर का ही होता है | दलितों को बहुत ही व्यवस्थित तरीके से मुख्यधारा के विकास से बाहर रखा गया है| मौके भी ऐसे आते है कि वो ऊपर उठे पर उन्हे हमेशा ही दबाया जाता है|

मसीह का सुसमाचार मुक्ति का सुसमाचार है, जिससे कि लोग, मानवीयकरण का प्रथम वाहक होने के नाते गरीबी और उत्पीड़न जैसी सभी प्रकार की दासता से खुद को मुक्त करते हैं | सुसमाचार से लोगों को, समुदायों को, राष्ट्रों को, खुद की क्षमताओं को महसूस करने, समझने में मदद मिलती है|

चर्च ऑफ़ नार्थ इंडिया (सी.एन.आई) मिशन का कथन इस पर केन्द्रित है कि वह हाशिए पर खड़े लोगों की दुर्दशा को दर्शाता है| और इस बात का समर्थन करता है कि, "जाति, वर्ग, लिंग, आर्थिक असमानता, प्रकृति के शोषण की बाधाओं को तोड़ कर, निरंतर संघर्ष के माध्यम से, ईश्वरकी रचना की अखंडता को बहाल करते रहना"

वर्ष 2015 से सी.एन.आई. एस.बी. एस.एस, यूएसपीजी के सहयोग से विभिन्न धर्मप्रदेश में दलित और आदिवासी समुदायों की मुक्ति के लिए काम कर रही है| यह पहल " मेरी प्रजा को जाने दो" कहलाती है, जो कि प्रेरित है मूसा नबी की आज्ञा से, कि जो इस्रैएलियों को मुक्त करने और उन्हें परमेश्वर के अधिकार के साथ वादा किए गए देश ले जाने से है | जब परमेश्वर सभी मनुष्यों की रचना करने वाला है, तो परमेश्वर के राज्य का शुभ समाचार सभी मनुष्यों के लिए के लिए | परमेश्वर लोगों को जाति और धर्म में बाटने नहीं आया है बल्कि दिबे कुचले और निसहाय, को मुक्ति दिलाने आया है| "मेरी प्रजा को जाने दो" कार्यक्रम के माध्यम से, दलित भाई बहन अपनी पारिवारिक आय बढ़ाने के लिए आय सृजन गतिविधियों में लगे हुए हैं| फलस्वरूप आज उनके बच्चे विद्यालयों में जाते हैं और उचित शिक्षा और साथ में पोषण आहार ग्रहण कर रहे हैं| उनके पास बिना किसी भेदभाव के स्वच्छ पेय योग्य पानी और स्वच्छता पहुँच रही है | कोविड -19 महामारी के दौरान चर्च ने उनके समुदाय को सूखा राशन की राहत एवं उनके खर्चों में सहयोग प्रदान की थी| यह कार्यक्रम बड़े पैमाने पर, मण्डली को यीशु में शामिल होने के लिए सक्षम बना रही है| ताकि एकजुटता से पीड़ित परिवारों के लिए कार्यवाई की जा सके और उनके चेहरे पर आशा की किरण और मुस्कान लायी जा सके|

एक न्यायपूर्ण समाज वह समाज है जिसमें सम्मान की भावना और अवमाननाकी भावना एक दयालू समाज की नीव में घुल जाती है- डॉ. बी. आर आंबेडकर, |जाति का विनाश|

## CWESTIYNAU

- Wrth feddwl fod y Dalitiaid yn cael eu hystyried yn 'anghyffwrddadwy', pa ffurfiau o ragfarn a gwahaniaethu a welwch yn eich cyd-destun chi?
- Diwinyddiaeth gan y Dalitiaid eu hunain sy'n anelu at eu rhyddhad hwy eu hunain yw diwinyddiaeth Dalit. A welwch chi fathau tebyg o ddiwinyddiaeth yn codi yn eich cyd-destun chi?
- 'Gan fod Duw yn greawdydd pawb oll, dylai newyddion da teyrnasiad Duw fod yn dda i bawb hefyd.' Fe'n gelwir ni i gyhoeddi'r newyddion da, ond beth yw'r newyddion da i gymunedau'r Dalitiaid, i gymunedau gorthrymedig eraill ac i'n cymuned ni?

## EXODUS 6: 2-7 (BNET)

2 Meddai Duw wrth Moses, "Fi ydy'r ARGLWYDD.

3 Gwnes i ddangos fy hun i Abraham, Isaac a Jacob fel y Duw sy'n rheoli popeth. Ond doeddwn i ddim wedi gadael iddyn nhw fy nabod i wrth fy enw, yr ARGLWYDD.

4 Rôn i wedi gwneud ymrwymiad i roi gwlad Canaan iddyn nhw, sef y wlad lle roedden nhw'n byw fel mewnfudwyr.

5 Dw i wedi clywed pobl Israel yn griddfan am fod yr Eifftiaid wedi'u gwneud nhw'n gaethweision, a dw i wedi cofio fy ymrwymiad iddyn nhw.

6 Felly, dywed wrth bobl Israel, 'Fi ydy'r ARGLWYDD. Dw i'n mynd i ddod â chi allan o'r Aifft. Fyddwch chi ddim yn gaethweision i'r Eifftiaid o hyn ymlaen. Dw i'n mynd i'ch achub chi rhag cael eich cam-drin ganddyn nhw. Dw i'n mynd i ddefnyddio fy nerth i'ch rhyddhau chi, ac yn mynd i'w cosbi nhw.

7 Dw i'n mynd i'ch gwneud chi'n bobl i mi fy hun. Fi fydd eich Duw chi. Byddwch chi'n gwybod wedyn mai fi ydy'r ARGLWYDD eich Duw wnaeth eich achub chi o fod yn gaethweision yn yr Aifft. [BNET]

## CWESTIYNAU

- Mae'r darn hwn yn paentio darlun o Dduw sy'n dioddef gyda phobl Dduw ac yn eu cario drwy eu cystuddiau. Sut mae hyn yn cymharu â'ch dealltwriaeth chi o Dduw?
- Clywodd Duw 'y bobl yn griddfan'. Sut mae hyn yn peri i chi deimlo am y ffordd yr ydych chi'n siarad â Duw?

- Yn yr adran hon, mae Duw'n addo, 'Dw i'n mynd i ddefnyddio fy nerth i'ch rhyddhau chi' ('…eich achub… â braich estynedig', yn ôl y BCND). Beth mae 'achub' neu 'rhyddhau' yn golygu heddiw i'n byd, i'r Eglwys ac i ni'n hunain?

## GWEDDI

Dduw sy'n atgyfnerthu,
Dyrchafa'r bregus a'r distadl.
Chwala gadwyni gwahaniaethiad a rhagfarn,
A gad dy bobl yn rhydd.
Gad inni sefyll mewn solidariaeth â'r gorthrymedig,
Gwrando ar eu storïau ac ysgafnhau eu baich.
Boed inni oll fod yn lewyrch gobaith mewn byd toredig.

## EGLWYS GOGLEDD INDIA: GADEWCH I'M POBL FYND - RHYDDHAU CYMUNEDAU LLWYTHOL RHAG TLODI A CHAETHWASIAETH DYLED

Mewn rhai rhanbarthau yng Ngogledd India, mae pobl o lwythau Dalit ac Adivasi yn cael eu dal yn slafdod llafur gorfodol, maent yn wynebu oriau hir, cyflog isel a llawer o galedi oherwydd tlodi eithafol.

Mae rhaglen Eglwys Gogledd India, Gadewch i'm Pobl Fynd, wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi cymunedau ymylol i dorri'n rhydd o gaethwasiaeth dyled a thlodi i ddod yn hunangynhaliol yn y tymor hir. Mae'r Eglwys wedi chwarae rhan hanfodol wrth gynyddu incwm cartrefi trwy fobileiddio menywod mewn ardaloedd gwledig trwy grwpiau hunangymorth. Mae menywod yng nghymunedau llwythol Dalit ac Adivasi Gogledd India yn dod yn symbolau blaenllaw o atgyfnerthiad trwy eu hannibyniaeth economaidd, gan ysbrydoli ac annog eraill i ddilyn yr un llwybr.



# DIOLCH!

**Gyda'ch cefnogaeth chi rydym wedi medru ariannu gwaith allweddol ein partner-eglwysi byd-eang. Dyma rai o'u cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf:**

## EGLWYS GOGLEDD INDIA

**Drwy'r rhaglen 'Gadewch i'm pobl fynd'**

- Rhannodd 12,000 o oedolion a phlant mewn 78 pentref mewn ymgyrch genedlaethol i greu ysgolion mewn ardaloedd gwledig.
- Cafodd 1,804 teulu elwa o waith i sicrhau dŵr glân a charthffosiaeth yn Barrackpore a chael hyfforddiant mewn materion amgylcheddol a gwaredu gwastraff.
- Cafodd grwpiau hunan-gymorth yn Barrackpore ac Amritsar eu cefnogi a'u cryfhau.
- Cyfranogodd 19 dyn a 129 dynes mewn hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth amgen a mynychu gweithdai ar bynciau penodol i gryfhau cymunedau a'u galluogi i fynd i'r afael â materion lleol

## CYNGOR ANGLICANAIDD ZAMBIA

**Drwy'r Rhaglen Cyfiawnder Rhywedd Trawsnewidiol**

- Cynhaliwyd 24 o berfformiadau drama yn seiliedig ar drais ar sail rhywedd ac fe'u gwelwyd gan 3,818 o bobl.
- Ymwelwyd â 1,581 teulu gyda golwg ar gynyddu ymwybyddiaeth o drais yn seiliedig ar rywedd.
- Cafodd 3,474 o bobl oedd wedi goroesi trais ar sail rhywedd wasanaethau cwnsela (2,497 dynes a 977 dyn)

**Diolch ichi am sefyll mewn solidariaeth â'r Eglwys fyd-eang; mae'ch cefnogaeth yn cynorthwyo'n partneriaid gyda gweithgarwch sy'n newid bywydau.**

www.uspg.org.uk/lent

# WOULD YOU LIKE TO SUPPORT LIVING STONES, LIVING HOPE?

*Yes, I would like to support Living Stones, Living Hope with a donation as follows:*

**Please ensure that all of the following fields are filled out in full in order for us to process your donation**

**I want to give:** ☐ £30 ☐ £60 ☐ £100 ☐ Other £...............

## This donation is from:

*Church name* ..................................................................................................................

☐ *This is a personal donation*

## Your details:

*Title*..................... *First name(s)*...........................................................................................

*Surname* .........................................................................................................................

*Address*..........................................................................................................................

*Town/City* ..................................................................... *Post code* ....................................

**Tel**.................................................................................................................................

**Email** .............................................................................................................................

## Payment details:

*I enclose:* ☐ *a cheque payable to 'USPG'* ☐ *CAF voucher*

**OR** *please debit my:* ☐ *credit card* ☐ *debit card*

*My card number is:* | | | | | | | | | | | | | | | | |

*Expiry date:* ..M.. ..M.. / ..Y.. ..Y.. *Security code* .................... *(last 3 digits on the signature strip)*

*Signature*............................................................ *Date*...(DAY)..........(MONTH)..........(YEAR).......

**Banks and Building Societies may not accept Direct Debit instructions for some types of account.**

## PLEASE TURN OVER TO COMPLETE THIS FORM

*51250 UNR COR PH62 BKLT*

# LIVING STONES, LIVING HOPE DONATION FORM (CONTINUED)

☐ **I enclose ................ Gift Aid Collection Envelopes**

## Make your donation go further with Gift Aid:

giftaid it

☐ *I am a UK tax payer and want all my donations, past, present and future to USPG to be treated as Gift Aid donations. I understand that if I pay LESS Income Tax and/or Capital Gains Tax than the amount of Gift Aid claimed on all my donations in that tax year, it is my responsibility to pay any difference. I understand that USPG will reclaim 25p of tax on every £1 that I give and that Gift Aid will be used to fund the work of USPG around the world.*

*Signature............................................................ Date....(DAY)..............(MONTH)...............(YEAR).........*

## Keeping in touch

*USPG would very much like to keep in touch with you to keep you updated on the work of our partner churches and communities worldwide. Managing your details well is important to us and we would like to contact you in ways that work for you. If you have already opted in to receive emails from us we will continue to communicate with you in this way. You can unsubscribe at any time. However, if you are not receiving our enewsletter please do let us know whether we can contact you via email.*

☐ *Yes, I am happy to be contacted by email*

*We may contact you by post and telephone. If you do not wish to hear from us, or have a preferred contact method, simply get in touch with us at info@uspg.org.uk*

*When you give us your details, you will be added to our secure database so we can communicate with you as you have indicated. You can read our full data privacy notice at www.uspg.org.uk/privacy*

**Please return to: USPG, 5 Trinity Street, London SE1 1DB**
**Or you can call 020 7921 2200 or visit www.uspg.org.uk/lent**

## THANK YOU FOR YOUR SUPPORT

# USPG A'CH EGLWYS CHI

**Rydym yn byw mewn byd toredig ac anghyfartal. Mae hyn yn galw am eiriau a gweithredoedd sy'n mynegi solidariaeth ac yn dangos cariad Duw. Wnewch chi ymuno gydag eglwysi ar draws y byd yn eu cenhadaeth i drawsffurfio bywydau drwy addysg, gofal iechyd a chyfiawnder i bawb?**

Gweddïwch dros yr eglwys fyd-eang – gallwch dderbyn dyddiadur gweddi chwarterol, neu fe allwch ei ddarllen ar-lein ar **www.uspg.org.uk/pray**

Beth am gael eich ysbrydoli gan siaradwr o USPG? I drefnu siaradwr i ddod i'ch eglwys chi, danfonwch e-bost at **info@uspg.org.uk** neu rhowch alwad ffôn ar 020 7921 2200

Defnyddiwch ein cyrsiau astudiaethau Beiblaidd – mae gennym ystod o adnoddau y gallwch eu defnyddio yn eich eglwys chi. Gallwch eu lawrlwytho neu eu harchebu yma: **www.uspg.org.uk/resources**

Gallwch godi arian i USPG – Mae llawer ffordd y gallwch chi a'ch eglwys godi arian. Gallwch dderbyn amlenni Rhodd Cymorth, blychau casglu ac adnoddau eraill. Os ydych am ymgymryd â sialens arbennig o ryw fath gallwn eich cefnogi â syniadau am godi arian, eich helpu i wneud y gorau o'ch tudalen rhoi cyfiawn a llawer mwy. Os ydych am wybod mwy cysylltwch â **https://www.uspg.org.uk/fundraise**

USPG yw'r asiantaeth genhadol Anglicanaidd sy'n partneru gydag eglwysi a chymunedau yn fyd-eang yng nghenhadaeth Duw i fywhau ffydd, i gryfhau cydberthynas, i ddatgloi potensial ac i hyrwyddo cyfiawnder. Fe'i sefydlwyd yn 1701.

Mae gan USPG dri amcan strategol: Ailfeddwl Cenhadaeth, Bywiogi Eglwysi a Chymunedau, a Hyrwyddo Cyfiawnder. Down â phobl at ei gilydd o wahanol rannau o'r Eglwys fyd-eang i sgwrsio â'i gilydd ac i ddod wyneb yn wyneb â'i gilydd, gyda golwg ar gyfoethogi ei gilydd a chryfhau eu ffydd yn Iesu Grist. Rydym yn anelu at gysylltu eglwysi'r Cymundeb Anglicanaidd â'i gilydd er mwyn dyfnhau'r rhwymau cariad rhyngddynt a dysgu gan ei gilydd. Rydym yn hyrwyddo addysg ac arweinyddiaeth ac yn dyfnhau undod a photensial yr Eglwysi Anglicanaidd. Byddwn hefyd yn cerdded ochr yn ochr ag Eglwysi Anglicanaidd ar draws y byd wrth iddynt ffurfio cymunedau o obaith fydd yn medru gwrthsefyll yr heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, ymfudo, rhyw a rhywedd, hawliau dynol pobl frodorol a byw rhyng-grefyddol.

Os hoffech wybod mwy am USPG neu os hoffech wirfoddoli, ymwelwch â'n gwefan ar **www.uspg.org.uk**

---

**USPG**
5 Trinity Street, London, SE1 1DB
0207 921 2200
www.USPG.org.uk

Dilynwch ni ar:
**USPGglobal**

ISBN 2631-4995
Rhif Elusen Gofrestredig: 234518

MIX
Paper from responsible sources
FSC® C013888
www.fsc.org